### ❖ 'Efe a'i Darostyngodd ei Hun…'

Arglwydd,
diolch am y Nadolig, rhag i ni anghofio i Ti ddod i'n plith;
a gwisgo siwt o gnawd.
–mae i'r butain gnawd,
–mae gan y llofrudd a'r lleidr gnawd,
–rydym ninnau yn fysedd, dwylo a thraed,
gwisgaist Iesu 'run fath â ninnau,
rhoddaist y peth rhataf amdano.
Doedd gen Ti ddim cywilydd o'th Fab yn ddyn.

Dy gariad yn dod mewn baban,
'Crëwr ...
yn crio mewn cadach.'
Anodd credu i Ti ddod fel hyn i'n plith;
'Llyw'r nef yn lle'r anifail,
A Duw yn y domen dail.'

**MOR FAWR**
Mor fawr yw dy gariad–
yn ymestyn i bobman,
yn cyffwrdd pawb,
yntau'r sypyn bach gwinglyd yn gorwedd rhwng asyn ac angel.
Hwythau'r werin larïaidd yn dod o'r pedwar cyfandir i wyro
wrth ei breseb–
amddifaid Calcutta,
mamau Belfast,
a thrueiniaid Rio.

**MOR RYMUS**
Mor rymus yw Dy gariad–
yn disgleirio 'mhell,
yn pelydru trwy'r fagddu,
yntau'r Melchior wrth hyrddio trwy'r gofod yn gweld o'r gwagle,
yng ngolau dy seren, ryfeddod y crud.

**MOR WYLAIDD**
Mor wylaidd dy gariad–
yn myned mor isel,
yn cyrraedd y gwaelod;
yntau, 'Y mab Iesu ym maw a biswail,'
a hwythau'r gwybodusion yn dod o'u labordai i blygu o'i flaen,
i offrymu anrhegion,
addysg, thesis a medr.

**MOR GWMPASOG**
Mor gwmpasog dy gariad,
yn cynnwys yr holl fyd,
yn ein ceisio ni i gyd,
'yr ych,
Yr Oll mewn hen adfail.'
Arglwydd, arwain ninnau i Fethlem eleni,

at y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,
i'n rhoddi ein hunain,
yn ddwylo,
yn llygaid,
yn gorff,
yn enaid,
yn bopeth i'r baban Iesu. Amen.

**Gareth Maelor**